Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Ge

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 13 Tachwedd 2020 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Chair) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

| Swyddogion | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar:

1. 26 Mehefin 2020 (ACS)
2. 26 Mehefin 2020 (HGF)
3. 10 Gorffennaf 2020 (CSL)
4. 10 Gorffennaf 2020 (JMC)
5. 24 Gorffennaf 2020
6. 11 Medi 2020 ac
7. 1 Hydref 2020

fel cofnodion cywir.

## 6 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 7 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat/Trwydded Cerbyd Hacni – AZ.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AZ.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Eglurodd Mr D, a oedd yn cynrychioli AZ, yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. Anfon llythyr rhybudd cryf at AZ ynghylch ymddygiad yn y dyfodol mewn perthynas â'r Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

2. Anfon llythyr rhybudd cryf at AZ ynghylch ymddygiad yn y dyfodol mewn perthynas â'r Drwydded Cerbyd Hacni.

## 8 Canlyniadau apeliadau.

**Nodwyd** canlyniadau Apeliadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Cadeirydd**